

FFURFLEN YMGYNGHORI

Sut mae mesur cenedl?

Cynigion ar gyfer Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol i fesur y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 11 Ionawr 2015

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i:

FGActWales@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch: 029 2082 5259 neu 3388.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Sut mae mesur cenedl?

Ymgynghoriad ynghylch dangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad.

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch

Ffurflen Ymateb

Sut mae mesur cenedl?

Enw	Rebecca Williams	
Sefydliad	UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)	
Cyfeiriad	UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU	
Cyfeiriad e-bost	rebecca@ucac.cymru	
Rhif ffôn	01970 639950	
Math (dewiswch un o blith y canlynol)	Unigolion	<input type="checkbox"/>
	Corff Cyhoeddus (Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Tân ac Achub a.y.b.)	<input type="checkbox"/>
	Busnesau	<input type="checkbox"/>
	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	X
	Trydydd sector (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, sefydliadau cydweithredol, mentrau, sefydliadau crefyddol, sefydliadau dielw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (Grwpiau eraill nas rhestrir uchod)	<input type="checkbox"/>

Cwestiynau cyffredinol (1-5)

Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl bod y set arfaethedig, yn ei chyfanrwydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant?

Os nad ydych, rhowch esboniad.

Dewiswch:

Cytuno'n Gryf <input type="checkbox"/>	Cytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno X	Anghytuno'n Gryf <input type="checkbox"/>
--	---------------------------------	-------------	---

Rhowch esboniad am eich ymateb.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi bod '...angen i'r set gyfan [o ddeilliannau] gefnogi'r holl nodau'n gytbwys.'

Sylwn mai dim ond 8 o'r 40 dangosydd sy'n cyfrannu tuag at fesur Nod Llesiant rhif 6 (Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu) – sef y nifer lleiaf o'r holl Nodau. Mae hyn yn sylweddol is na'r nifer isaf nesaf, sef 14 dangosydd ar gyfer Nod Llesiant 2.

Teimlwn fod lle i addasu rhai o'r dangosyddion fel bod modd iddynt gyfrannu'n fwy effeithiol tuag at Nod Llesiant 6, ac yn benodol mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae dangosyddion megis 04, 05, 15, 25, 32 a 40 eisoes yn cael eu nodi, ac rydym yn cymeradwyo hynny. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa fesurau, neu sut y byddai'r mesurau a nodir, yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at Nod Llesiant 6. Mewn rhai achosion, megis 28, mae'r mesurau amlwg yn berthnasol i elfen ddiwylliannol Nod 6, ond gydag ychydig o addasu, mi allai gwmpasu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ogystal. Teimlwn fod angen rhagor o fanylder.

Dyma rai dangosyddion eraill y gellid eu hystyried fel rhai sy'n cyfrannu tuag at Nod Llesiant 6, gyda rhywfaint o addasu: 06, 10, 14, 16, 17, 18, 19, 27 a 39.

Cwestiwn 2

A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig y gellir eu gwella yn eich tyb chi? Os oes, rhestrwch y rhai y gellir eu gwella yn eich tyb chi.

Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 wrth gynnig gwelliant.

Dewiswch:

Oes X	Nac oes <input type="checkbox"/>
-------	----------------------------------

Os oes, rhestrwch y rhai y gellir eu gwella yn eich tyb chi.

Dangosydd 04: Dywedir bod bwriad disodli mesur yn y dosbarth Derbyn (sef plant 4 oed) gyda mesur 'ar gyfer plant 2 a 3 oed unwaith y bydd data ar gael yn gyson ledled Cymru.' Gofynnwn beth fydd y mesur hwn gan nad yw'r rhan fwyaf o blant 2 oed, a chyfran sylweddol iawn o blant 3 oed (ble nad oes Dosbarth Meithrin yn yr ysgol) mewn lleoliad ffurfiol. Ni fydd Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gymwys i'r grŵp oedran 2-3 oed, gan mai yn y Dosbarth Derbyn y mae'n cychwyn.

Dangosydd 25: Dylid sicrhau y mesurir cyfrwng iaith digwyddiadau a gweithgareddau, yn arbennig felly mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn gallu cyfrannu'n effeithiol at fesur pob agwedd o Nod Llesiant 6.

Dangosydd 26: Gweler cwestiwn 11 isod.

Cwestiwn 3

A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig na ddylid eu cynnwys yn eich tyb chi?

Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 wrth gynnig dileu dangosydd.

Dewiswch:

Oes

Nac oes

Os oes, rhestrwch y rhai na ddylid eu cynnwys yn eich tyb chi.

Cwestiwn 4

A oes dangosyddion newydd y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi?

Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 yn y Ddogfen Ymgynghori wrth gynnig dangosydd newydd.

Dewiswch:

Oes

Nac oes

Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd.

Cwestiwn 5

Sut ydych chi'n meddwl y dylem gyfleu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl Cymru?

Ychwanegwch eich sylwadau

Y Gymru a Garem



Cwestiynau penodol sy'n gysylltiedig â dangosydd arfaethedig

03

Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw

1

2

3

4

5

6

7

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o fesur y dangosydd pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw?

Dewiswch:

Ydw

Nac ydw

Ddim yn Gwybod

Os nad ydych, sut ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd hwn gael ei fesur?

Cwestiwn 7

Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys dangosydd tebyg o ddewis ffyrdd iach o fyw ar gyfer plant?

Dewiswch:

Ydw

Nac ydw

Ddim yn Gwybod

Os ydych chi, pa ymddygiadau/dewisiadau ydych chi'n meddwl dylid eu cynnwys ar gyfer plant?

23

Ansawdd tai

1

2

3

4

5

6

7

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fesur cartrefi sydd heb beryglon fel dangosydd ar gyfer ansawdd tai?

Dewiswch:

Ydw

Nac ydw

Ddim yn Gwybod

Os nad ydych, darparwch ddangosydd arall trwy gwblhau'r templed a ddarparwyd.

24

Lefelau digartrefedd

1

2

3

4

5

6

7

Cwestiwn 9

Ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref?

Dewiswch:

Ydw

Nac ydw

Ddim yn Gwybod

Os nad ydych, rhowch y rhesymau dros eich ymateb.

25	Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth	1	2	3	4	5	6	7

Cwestiwn 10

Pa fath o weithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ddylai gael eu mesur mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn eich tyb chi?

Rhestrwch hwy isod.

Dylid sicrhau y mesurir cyfrwng iaith digwyddiadau a gweithgareddau, yn arbennig felly mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn gallu cyfrannu'n effeithiol at fesur pob agwedd o Nod Llesiant 6.

26	Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol	1	2	3	4	5	6	7

Cwestiwn 11

Ydych chi'n cytuno y dylem ganolbwyntio ar y rhai sy'n mynd mor bell â defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn hytrach nag ar y rhai sy'n gallu siarad yr iaith?

Dewiswch:

Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Ddim yn Gwybod X
------------------------------	----------------------------------	------------------

Os nad ydych, rhowch y rhesymau dros eich ymateb.

Nid ydym yn anghytuno gyda'r pwyslais ar y defnydd o'r Gymraeg – cytunwn i raddau helaeth â'r rhesymeg. Nid yw'r Gymraeg yn ffynnu os oes llond gwlad o bobl sy'n gallu ei siarad hi, ond ddim yn gwneud, am ba bynnag reswm.

Fodd bynnag, teimlwn fod sawl agwedd o'r mesur arfaethedig yn broblemus.

Deallwn mai dau fesur sydd dan sylw fan hyn - sef yr un sy'n mesur defnydd y categori penodol o oedolion ar y naill law, a'r un sy'n mesur gallu a defnydd plant ar y llaw arall.

O ran y mesur oedolion, gofynnwn ai'r mesur 'beunyddiol' ('daily') yw'r un mwyaf addas. Mae'n rhaid bod llawer fawr iawn o oedolion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson, ac eto nid yn ddyddiol - er enghraifft, yn ei defnyddio'n gymdeithasol (grŵp, neu ddsbarth nos, neu sgwrs ffôn gydag aelodau o'r teulu) ond heb ei defnyddio adref nac yn y gwaith. Teimlwn y gellid llacio, efallai i 'wythnosol' neu 'sawl gwaith yr wythnos', ac y byddai'r wybodaeth yn creu darlun mwy cywir a defnyddiol.

O ran y mesur plant, nid oes cyfeiriad at oedrannau, er bod y cyfeiriad at y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn awgrymu mai o 4 oed fyddai'r ieuengaf; a fyddai'r ffigyrau'n ymestyn hyd at 18 oed? Ni ddeallwn

pam y cyfunir y mesur 'rhugl' gyda'r mesur 'yn siarad Cymraeg gartref'. Os mai mesur faint o blant sy'n rhugl yw'r nod, nid yw'n berthnasol a ydynt yn siarad Cymraeg gartref, neu a ydynt wedi datblygu'r rhuglder yn yr ysgol neu rhywle arall. Ar y llaw arall, fel mesur o gryfder y Gymraeg yn y gymuned, mae mesur faint o gartrefi sy'n defnyddio'r Gymraeg (yn unig; neu yn un o sawl iaith) ar yr aelwyd yn fesur pwysig iawn. Y cyfuniad o'r ddau sy'n ein taro ni'n chwithig, ac yn creu data â'r potensial i fod yn anomalaidd.

Arweinia hyn at gwestiwn ehangach, sef ai doeth/effeithiol yw ceisio cyfuno 'gallu' a 'defnydd' mewn un mesur (mewn perthynas ag oedolion a/neu blant). Byddai casglu'r ddwy elfen ar wahân yn creu data llawer rhwyddach i'w ddeall a llawer cyfoethocach o ran y potensial am ddadansoddiad pellach, a chynllunio camau gweithredu. Byddai hynny'n cydweddu'n well â'r 'egwyddorion ar gyfer mesur y peth cywir' a'r 'egwyddorion ar gyfer mesur yn y ffordd gywir': "taro tant gyda'r cyhoedd" ac "...allu cael ei grynhoi'n fyr mewn ffordd y bydd y cyhoedd yn ei ddeall ar unwaith."

31

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

1

2

3

4

5

6

7


Cwestiwn 12

Pa ddull ddylid ei ddefnyddio i fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr?

- A. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru.
Wedi'i fesur yn ôl: Rhestr sy'n seiliedig ar gynhyrchu, wedi'i fesur mewn MtC02.
- B. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru.
Wedi'i fesur yn ôl: Rhestr sy'n seiliedig ar ddefnydd gan ddefnyddwyr terfynol, ar sail y DU yn unig, wedi'i fesur mewn MtC02.
- C. Dangosydd ôl troed carbon lle mae allyriadau a gynhyrchir yng Nghymru (A) yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r allyriadau corfforedig sy'n gysylltiedig â defnydd (gan drigolion yng Nghymru) o nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd yn rhyngwladol.

Eglurwch pam yr oeddech yn ffafrio'r dull a ddewiswyd gennych.

32 Ecosystemau iach



Cwestiwn 13


13. A oes gennych awgrym o ran sut i fesur iechyd ein hecosystemau?

Oes

Nac oes

Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd.

33 Amgylchedd naturiol bioamrywiol



Cwestiwn 14

14. Oes gennych chi awgrym o ran sut y dylem ni fesur amrywiaeth a helaethrwydd bioamrywiaeth ein hamgylchedd naturiol?

Oes

Nac oes

Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd.

34 Ansawdd y dŵr



Cwestiwn 15

Ydych chi'n meddwl bod y dangosydd arfaethedig ar gyfer ansawdd y dŵr yn mesur manteision yr amgylchedd dŵr yn ddigonol?

Rhowch sylwadau.

39 **Dinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang**

1	2	3	4	5	6	7

Cwestiwn 16

Pa fathau o weithgareddau rhyngwladol neu fathau o ymgysylltu ddylai gael eu cynnwys yn y dangosydd hwn?

Eglurwch pam eich bod yn ffafrio'r dull a ddewiswyd gennych.

Mi allai gynnwys gweithgareddau ym meysydd addysgol, diwylliannol a ieithyddol. Er enghraifft, cysylltiadau rhwng ysgolion yng Nghymru a gwledydd perthnasol, gan gynnwys cyfnewid athrawon. Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng cymunedau â ieithoedd lleiafrifol.

40 **Cyfrifoldebau rhyngwladol**

1	2	3	4	5	6	7

Cwestiwn 17

Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i ddarparu esboniad naratif ar y modd y mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol yn lle mesuriad penodol?

Rhowch eich ateb yma.

Byddai adroddiad naratif yn synhwyrol gan ystyried y rhwymedigaethau rhyngwladol niferus iawn. Mi fydd yn bwysig cynnwys adran ar y rhwymedigaethau ieithyddol, yn enwedig Siarter Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol.

Unrhyw Sylwadau Eraill

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu faterion eraill i'w codi, nodwch hwy yn y lle gwag sydd wedi'i ddarparu.

Sut mae mesur cenedl?

Ymgynghoriad ynghylch dangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 11 Ionawr 2015, trwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol

E-bost	Post
FGActWales@wales.gsi.gov.uk	Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Anfonwch e-bost i: FGActWales@wales.gsi.gov.uk

Ffoniwch: 029 2082 5259 neu 3388

Templed ar gyfer dangosyddion newydd

A yw'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd newydd ynteu'n welliant i ddangosydd presennol?

Ticiwch un blwch

Newydd Gwelliant

Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn ei wella neu'n ei ddisodli?

Beth yw enw'r dangosydd newydd?

Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y dangosydd hwn?

Eglurwch pam mai'r dangosydd hwn yw'r un gorau ar gyfer mesur llesiant pobl yng Nghymru

Nodwch pa nodau y mae'r dangosydd arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt

(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Cymru lewyrchus | <input type="checkbox"/> Cymru o gymunedau cydlynus |
| <input type="checkbox"/> Cymru gydnerth | <input type="checkbox"/> Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| <input type="checkbox"/> Cymru iachach | <input type="checkbox"/> Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| <input type="checkbox"/> Cymru sy'n fwy cyfartal | |

Gwnewch gopi o'r templed uchod os oes arnoch angen ei ddefnyddio fwy nag unwaith.